OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3064 (Cy.293)(C.115)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, LLOEGR A CHYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 2) 2003

*Wedi'i wneud - - 26 Tachwedd 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 8(2) a 10(2) o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 2) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd (Cymru) 2003;

**Y dyddiau a bennwyd ar gyfer darpariaethau ynglŷn â'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn Lloegr**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) 1 Rhagfyr 2003 yw'r dydd a bennwyd i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym at bob diben —

(i) adran 1 ac Atodlen 1;

(ii) paragraffau 3, 4, 5, 7, a 14 o Atodlen 3 ac adran 7(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â hwy; a

(iii) adran 7(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 4 ac eithrio'r cyfeiriad at adran 22(4) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

(2) Dim ond ynglŷn â Lloegr y mae'r darpariaethau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) yn cael eu dwyn i rym.

(**1**) 2003 p.4.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D.Elis- Thomas*
26 Tachwedd 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn o dan Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 ("y Ddeddf").

Mae Erthygl 2 yn dwyn i rym, wrth gael ei chymhwyso i Loegr, adran 1 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 iddi. Mae adran 1 yn hepgor adran 20 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ac Atodlen 7 iddi ac effaith hynny yw datgymhwyso dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu Cynghorau Iechyd Cymuned ar gyfer dosbarthau yn Lloegr.

Mae'r Gorchymyn yn cychwyn diwygiadau a diddymiadau canlyniadol hefyd.

NODYN AM ORCHYMYN CYCHWYN BLAENOROL

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hyn yn rhan o'r Gorchymyn)

Darparwyd ar gyfer y darpariaethau a bennit isod mewn perthynas â Chymru (gan gynwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru a Lloegr) yng Ngorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003 O.S. 2003/2660 (Cy.256) (C. 102)

| Darpariaeth | Dyddiad Cychwyn |
|---|---|
| Adran 1 (yn gymwys i Gymru yn unig) | 20 Hydref 2003 |
| Adran 7(1) (yn rhannol) (yn gymwys i Gymru yn unig) | 20 Hydref 2003 |
| Adran 7(2) (yn rhanol) (yn gymwys i Gymru yn unig) | 20 Hydref 2003 |
| Adran 2 (ar gyfer gwneud rheoliadau yn unig) | 20 Hydref 2003 |
| Adran 3 (ar gyfer gwneud rheoliadau yn unig) | 20 Hydref 2003 |
| Adrannau 4, 5 and 6 | 20 Hydref 2003 |
| Atodlen 1 (yn gymwys i gymru yn unig) | 20 Hydref 2003 |
| Paragraffau 3, 4, 5, 7 a 14 o Atodlen 3 | 20 Hydref 2003 |
| Atodlen 4, heblaw'r cyfeiriad at adran 22(4) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 | 20 Hydref 2003 |
| Paragraff 10 o Atodlen 2 | 20 Hydref 2003 |
| Adrannau 2, 3 and 7(1) (ar gyfer phob pwrpas arall) | 1 Ebrill 2005 |
| Atodlenni 2 and 3 heblaw'r gyfeiriad at paragraff 16 o Atodlen 3 | |